
# Dewi Sant

**Ganwyd Dewi yn Sir Benfro yn 512. Non oedd enw ei fam a Sant ap Caredig oedd ei dad.**




**“Gwnewch y pethau hynny dych chi wedi'u dysgu a'u gweld a'u clywed gen i. A bydd y Duw sy'n rhoi ei heddwch gyda chi.”**

**Philipiaid 4 adnod 9**

**Dysgodd Dewi sut i ddilyn Iesu gan fynach o’r enw Peulin.**

**Daeth Dewi yn fynach hefyd a dim ond bara, dŵr a phêrlysiau oedd yn fwyta ac yfed.**


**Roedd Peulin yn mynd yn ddall felly gweddïodd Dewi a gofyn i Dduw roi golwg Peulin yn ôl iddo.**



**Cafodd Peulin weld eto! Gwyrth!**



**Teithiodd Dewi ar hyd a lled Cymru i ddweud y newyddion da am Iesu.**



**Unwaith, yn Llanddewibrefi, roedd Dewi'n siarad gyda'r bobl, ond doedd pawb ddim yn gallu ei weld na'i glywed.**




**Rhoddodd Dewi hances dan ei draed a'r peth nesa cododd y ddaear fel bod pawb yn gallu ei weld a'i glywed!**



**Daeth colomen wen a glanio ar ei ysgwydd. Gwyrth eto!**



**Cododd Dewi a'i ffrindiau abaty yng Nglyn Rhosyn, a nes ymlaen codwyd Eglwys gadeiriol Tŷ Ddewi wrth ei hymyl.**



**Ychydig cyn iddo farw ar Fawrth y 1af 589, dywedodd Dewi wrth y bobl, "Byddwch yn llawen, cadwch eich ffydd a daliwch i gredu, a gwnewch y pethau bychain dych chi wedi'u dysgu a'u clywed gen i."**



Testun: Nia Williams    Lluniau: Richard Gunther